30 MUN

## Gweithgaredd 3

# Meithrinfeydd Morfeydd Heli

**Yr offer sydd ei angen:**

- Copi o 'Cyflwyniad 3: Meithrinfeydd Morfeydd Heli' a dyfais i'w rannu gyda'r dysgwyr
- Dalen S_SM_2, wedi'i argraffu, un fesul pâr
- Sisyrnau
- Glud
- Papur neu lyfrau nodiadau ar gyfer cofnodi syniadau
- Dyfais y gellir ei ddefnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd

## I gwblhau'r gweithgaredd:

1. (Sleid 4) Fel dosbarth cyfan, trafodwch a fyddai morfa heli yn feithrinfa dda i bysgod ifanc. Pam mae'r dysgwyr yn credu hyn? Gwnewch nodyn o nodweddion allweddol ar y bwrdd neu sgrin. Gallai awgrymiadau gynnwys:
    - Dŵr bas
    - Infertebratau i fwydo arnynt
    - Cuddfannau rhwng glaswellt
    - Pysgod neu adar ifanc eraill gerllaw


2. (Sleid 5) Mewn parau, gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu eu bod yn bysgodyn ifanc sy'n byw mewn morfa heli. Rhowch 3 munud iddyn nhw dynnu llun neu nodi eu syniadau. Gallant gynnwys pethau fel:
    - Beth allan nhw ei weld?
    - Beth fydden nhw'n ei fwyta?
    - Ble fydden nhw'n cuddio?
    - Pwy allai fod gerllaw – ffrind neu fygythiad?

3. (Sleid 6) Rhowch gopi o S_SM_2 i bob pâr o ddysgwyr. Mae'n cynnwys templed o bysgodyn, ei gamau cylch bywyd, a disgrifiadau cyfatebol.

4. Gofynnwch i'r dysgwyr i dorri'r pysgodyn, camau cylch bywyd a'u disgrifiadau. Cefnogwch nhw i roi'r camau yn y drefn gywir, gan drafod newidiadau mewn maint, lleoliad, diet, neu fygythiadau dros amser.

5. Anogwch y dysgwyr i ludo'r camau cylch bywyd ar y templed pysgodyn. Cefnogwch nhw i blygu ar hyd y llinellau i greu eu cylch bywyd gorffenedig.


**ATEBION:**




**TASG YCHWANEGOL** *Dewisol*

(Sleid 7) Heriwch y dysgwyr i ddylunio meithrinfa morfa heli berffaith ar gyfer pysgod ifanc. Gallant dynnu llun a labelu eu cynefin neu greu model 3D syml. Anogwch nhw i gynnwys nodweddion fel ffynonellau bwyd, cuddfannau diogel, dŵr bas, a ffyrdd y mae'r cynefin yn amddiffyn y pysgod rhag perygl. Anogwch y dysgwyr i gyflwyno eu dyluniadau ac esbonio sut mae pob rhan yn helpu'r pysgod i oroesi.

# Meithrinfeydd Morfeydd Heli



Wy

Pysgodyn llawn dwf

Larfa

Pysgodyn ifanc

Mae larfa bach, sy'n drifftio, yn deor o'r wyau. Maent yn bwydo ar blancton ac yn agored iawn i ysglyfaethwyr.

Mae pysgod bach yn tyfu'n gyflym, yn bwydo ar infertebratau bach ac yn cuddio ymhlith planhigion.

Mae pysgod wedi tyfu'n llawn yn byw mewn dyfroedd dyfnach. Maent yn mudo, yn bwydo ac yn dychwelyd i silio.

Mae wyau pysgod yn cael eu dodwy mewn dyfroedd arfordirol bas neu aberoedd. Maent yn ludiog ac yn ymlynu wrth wymon neu raean.